

Agenda – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideogynhadledd drwy Zoom P Gareth Williams
Dyddiad: Dydd Llun, 3 Hydref 2022 Clerc y Pwyllgor
Amser: 13.30 0300 200 6565
SeneddDCC@senedd.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau (13.30)

Dogfennau atodol:

2 Y Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru): Sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog

(13.30 – 14.30)

(Tudalennau 1 – 20)

Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd

Nick Howard, Uwch Gyfreithiwr y Llywodraeth, Llywodraeth Cymru

Richard Clark, Pennaeth Ansawdd Amgylchedd Lleol, Llywodraeth Cymru

Hefin Gill, Cyfreithiwr y Llywodraeth, Llywodraeth Cymru

[Y Bil Diogelu'r Amgylchedd \(Cynhyrchion Plastig Untro\) \(Cymru\)](#), fel y'i
cyflwynwyd

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-24-22 – Papur 1 – Nodyn briffio

LJC(6)-24-22 – Papur 2 – Datganiad ar Fwriad Polisi, Medi 2022

LJC(6)-24-22 – Papur 3 – Llythyr gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr
Amgylchedd a Seilwaith at y Llywydd, 23 Medi 2022

LJC(6)-24-22 – Papur 4 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 20 Medi
2022



LJC(6)-24-22 – Papur 5 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 15 Awst 2022

LJC(6)-20-22 – Papur 6 – Llythyr gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith at y Gweinidog Newid Hinsawdd, 15 Gorffennaf 2022
[Saesneg yn unig]

LJC(6)-24-22 – Papur 7 – Llythyr gan y Llywydd at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 13 Gorffennaf 2022

LJC(6)-24-22 – Papur 8 – Llythyr gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith at y Llywydd, 11 Gorffennaf 2022

3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

(14.30 – 14.35)

3.1 SL(6)257 – Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Diwygio Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2022

(Tudalennau 21 – 24)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-24-22 – Papur 9 – Adroddiad

LJC(6)-24-22 – Papur 10 – Ymateb Llywodraeth Cymru

3.2 SL(6)258 – Rheoliadau Symud Anifeiliaid Anwes yn Anfasnachol (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2022

(Tudalennau 25 – 27)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-24-22 – Papur 11 – Adroddiad

LJC(6)-24-22 – Papur 12 – Ymateb Llywodraeth Cymru

4 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(14.35 – 14.40)

4.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Tai, Llywodraeth Leol a Chymunedau

(Tudalen 28)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-22-22 – Papur 13 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 26 Medi 2022

4.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth – System Gwybodaeth am Feddyginiaethau

(Tudalen 29)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-24-22 – Papur 14 – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 28 Medi 2022

5 Papurau i'w nodi

(14.40 – 14.45)

5.1 Gohebiaeth gan Rwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru ac Oxfam Cymru: Cerdyn Sgorio Ffeministaidd 2022

(Tudalennau 30 – 31)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-25-22 – Papur 15 – Llythyr gan Rwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru ac Oxfam Cymru, 29 Medi 2022 [Saesneg yn unig]

6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(14.45)

7 Y Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru): Trafod y dystiolaeth

(14.45 – 14.55)

Dogfennau atodol:

8 Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

(14.55 – 15.15)

(Tudalennau 32 – 52)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-24-22 – Papur 16 – Nodyn briffio

LJC(6)-24-22 – Papur 17 – Gohebiaeth gan Tai Hanesyddol Cymru, 17 Awst 2022 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-24-22 – Papur 18 – Gohebiaeth gan Gyfoeth Naturiol Cymru, 30 Awst 2022

LJC(6)-24-22 – Papur 19 – Gohebiaeth gan y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol, 2 Medi 2022 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-24-22 – Papur 20 – Cyflwyniad gan Dr Hayley Roberts, Prifysgol Bangor, Medi 2022 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-24-22 – Papur 21 – Gohebiaeth gan Swyddogion Archaeolegol y Gymdeithas Llywodraeth Leol, 8 Medi 2022 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-24-22 – Papur 22 – Llythyr gan y Pwyllgor Busnes, 23 Medi 2022

9 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Banc Seilwaith y DU:

Adroddiad drafft

(15.15 – 15.25)

(Tudalennau 53 – 61)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-24-22 – Papur 23 – Adroddiad drafft

10 Cytundebau rhyngwladol

(15.25 – 15.35)

(Tudalennau 62 – 65)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-24-22 – Papur 24 – Adroddiad drafft

11 Blaenraglen Waith

(15.35 – 15.55)

(Tudalennau 66 – 68)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-24-22 – Papur 25 – Nodyn briffio

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llyr Gruffydd, AS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr
Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

20 Medi 2022

Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru)

Yn sgil cyflwyno Bil Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) i'r Senedd ar Medi 20 2022, amgaeaf gopïau o datganiadau o friad polisi. Darperir y dogfennau hyn i helpu'r Pwyllgor wrth iddo graffu ar y Bil.

Edrychaf ymlaen at ddarparu tystiolaeth i'r Pwyllgor maes o law.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. **Tudalen y pecyn 1**

Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru)

Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer Is-Deddfwriaeth

Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn crynhoi pwerau Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth fel y'i amlinellir yn y Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) (y Bil), fel y'i cyflwynwyd i Senedd Cymru ar 20 Medi 2022.

Mae'r papur yn esbonio pam fod y pwerau hyn wedi eu dewis a pholisi presennol y llywodraeth ar gyfer defnyddio'r pwerau hyn. Mae'r cyfiawnhad dros weithdrefn y Senedd a ddewisir wedi ei nodi yn nhabl 5.1 y Memorandwm Esboniadol.

Bydd rheoliadau a wneir gan ddefnyddio'r pwerau hyn yn destun ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol yn y sectorau perthnasol a chynrychiolwyr grwpiau nodweddion gwarchoddedig.

Bwriad y ddogfen hon yw rhoi cyfle cychwynnol i randdeiliaid roi adborth ar y defnydd arfaethedig o'r pwerau hyn i sicrhau polisi cadarn ac effeithiol a chynorthwyo pwyllgorau wrth graffu ar y Bil. Mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried y defnydd o bwerau yn y Bil fel y nodir isod a'u bod yn fodlon eu bod yn angenrheidiol a chyfiawn.

Trosolwg o'r Bil

Mae'r Bil yn cynnwys 4 rhan ac 1 Atodlen.

- Mae Rhan 1 yn amlinellu cysyniadau allweddol, yn nodi'r hyn sy'n gyfystyr â 'chynhyrchion plastig untro gwaharddedig', yn cyflwyno'r Atodlen sy'n cynnwys y rhestr o gynhyrchion plastig untro gwaharddedig, eithriadau cysylltiedig, a diffiniadau ar gyfer y plastigau untro gwaharddedig penodol a restrir yn yr Atodlen. Mae'r rhan hon hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau i ddiwygio'r Atodlen.
- Mae Rhan 2 yn creu'r troseddau cyflenwi ac yn cynnig cyflenwi cynnyrch plastig untro gwaharddedig ac yn amlinellu'r modd o dreialu a'r gosb.
- Mae Rhan 3 yn sefydlu trefn orfodi dan arweiniad awdurdodau lleol ac yn rhoi pwerau mynediad ac arolygu i'r awdurdodau lleol. Mae'r rhan hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau i roi pŵer i awdurdod lleol bennu cosb sifil i unrhyw berson sy'n cyflawni'r drosedd o gyflenwi neu sy'n cynnig cyflenwi cynnyrch plastig untro gwaharddedig.
- Mae Rhan 4 yn cynnwys darpariaethau amrywiol, gan gynnwys darpariaethau ar ddehongli, y pwerau rheoleiddio a phan fydd darpariaethau penodol o fewn y Bil yn dod i rym.
- Mae'r Atodlen yn nodi'r rhestr o 'gynhyrchion plastig untro gwaharddedig', eithriadau ac yn darparu diffiniadau allweddol i gefnogi dehongliad o'r Bil.

Dogfennaeth arall

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r canlynol:

- Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru);
- Y Nodiadau Esboniadol i'r Bil; a
- Y Memorandwm Esboniadol i'r Bil.

Pŵer i ddiwygio'r Atodlen

Adran	Ffurflen	Darpariaeth	Gweithdrefn
3	Rheoliadau	Cynhyrchion plastig untro gwaharddedig: pŵer i ddiwygio	Cadarnhaol Drafft

Disgrifiad o bŵer

Mae'r ddarpariaeth hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau i ddiwygio'r Atodlen i'r Bil i:

- ychwanegu neu ddileu cynnyrch yng ngholofn 1 o'r Tabl ym mharagraff 1 o'r Atodlen;
- ychwanegu neu ddileu eithriad sy'n ymwneud â chynnyrch yng ngholofn 2 o'r Tabl yn yr Atodlen; ac
- i ychwanegu'r diffiniad o gynnyrch, neu dynnu diffiniad o baragraff 2 o'r Atodlen, neu ddiwygio diffiniad yn y paragraff hwnnw.

Wrth arfer y pŵer hwn, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried eu dyletswydd i hyrwyddo datblygu cynaliadwy o dan adran 79(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a'u dyletswydd i gynnal datblygiad cynaliadwy o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Cynnyrch plastig sydd:

- yn untro;
- yn cael ei restru yng ngholofn 1 o'r tabl yn yr Atodlen i'r Bil, a
- heb eithriad mewn cofnod cyfatebol yng ngholofn 2 o'r Tabl hwnnw sy'n berthnasol mewn perthynas â—

(i) math arbennig o'r cynnyrch, neu

(ii) y diben y cyflenwir y cynnyrch (neu'r math penodol o gynnyrch);

fyddai'n cael ei ystyried yn 'gynnyrch plastig untro gwaharddedig' o dan y Bil. Mae cyflenwi cynnyrch plastig untro gwaharddedig "i ddefnyddiwr yng Nghymru wedi ei wahardd i bob pwrpas o dan y Bil gan y byddai person sy'n cyflenwi cynnyrch o'r fath- i ddefnyddiwr yng Nghymru yn cyflawni trosedd o dan adran 5 o'r Bil.

O ystyried bod y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol, mae'n briodol bod rheoliadau o'r fath i'w gwneud yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

Pwrpas a bwriad polisi

Bydd y ddarpariaeth o wneud rheoliadau yn galluogi'r ddeddfwriaeth i gadw i fyny ag unrhyw dystiolaeth wyddonol sy'n dod i'r amlwg a allai awgrymu bod cynhyrchion plastig untro eraill yn broblematic neu os yw newid mewn ymddygiad defnyddwyr wrth brynu cynhyrchion plastig untro yn cael ei brofi'n niweidiol i'r amgylchedd.

Er enghraifft, cododd ymatebwyr i'n hymgyngoriad bryderon am y sbwriel a'r gwastraff sy'n gysylltiedig â pheccynnau sawsiau prydau parod neu sengl a phresenoldeb rhai cynhyrchion misglwyf sy'n cynnwys plastig yn ein hafonydd a'n môr. Wrth inni gasglu rhagor o dystiolaeth am effaith y cynhyrchion plastig hyn ac argaeledd dewisiadau amgen addas, bydd gan Weinidogion y gallu i weithredu drwy reoliadau i ychwanegu'r eitemau hyn at yr Atodlen i'r Bil a gwahardd neu gyfyngu ar gyflenwad y cynhyrchion plastig untro hyn.

Wrth gyflwyno gwaharddiadau yn y dyfodol, byddwn yn dilyn proses sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Lle bo angen, byddwn yn ymgynghori â'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan unrhyw waharddiad, ac yn sicrhau bod effaith gwahardd y cynhyrchion yn cael ei ystyried yn llawn. Byddwn ni hefyd yn sefydlu bwrdd prosiect goruchwylio a phanel cynghori ar gyfer cynhyrchion untro. Bydd y grwpiau hyn yn adolygu cynnydd ein cynigion polisi a deddfwriaethol yn rheolaidd, drwy fonitro prosiectau sy'n benodol i'r cynnyrch. Byddwn ni'n sefydlu cerrig milltir uchelgeisiol i sicrhau cynnydd cyflym, gan alluogi atebolrwydd, cyflenwi a gwerthuso. Byddwn yn sefydlu mecanweithiau priodol i gydweithio â rhanddeiliaid a'u cynnwys wrth ddatblygu a darparu ein cynigion.

Mae'r Bil hefyd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i nodi, mewn adroddiad y mae'n ofynnol iddynt gyhoeddi o dan adran 79(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, wybodaeth ynghylch eu hystyriaeth i ddefnyddio'r rheoliad hwn sy'n creu pwerau i ychwanegu cynhyrchion pellach neu wneud newidiadau i eithriadau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil cyfredol.

Pŵer i wneud Rheoliadau i roi pŵer i awdurdod lleol osod sancsiynau sifil mewn perthynas â throstedd

Adran	Ffurflen	Darpariaeth	Gweithdrefn
17	Rheoliadau	Sancsiynau Sifil	Cadarnhaol Drafft

Disgrifiad o bŵer

Mae'r ddarpariaeth hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau i roi pŵer i awdurdod lleol osod cosb sifil ar unrhyw berson sy'n cyflawni'r drosedd o gyflenwi neu sy'n cynnig cyflenwi cynnyrch plastig untro gwaharddedig o dan adran 5 o'r Bil.

Mae'r pŵer hwn yn cyfateb i'r hyn a geir yn Rhan 3 o Ddeddf Gorfodi a Sancsiynau Rheoleiddio 2008 (c.13) ("RESA"). Mae Rhan 3 o RESA yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer pwerau cosbi sifil amgen ar gyfer troseddau troseddol perthnasol sy'n ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth rheoliadol. Y sancsiynau sifil sydd ar gael o dan RESA yw: cosbau ariannol sefydlog, gofynion dewisol, hysbysiadau stop ac ymgymeriadau gorfodi. Maent yn ddewis arall, yn hytrach nac yn disodli euogfarn droseddol, yn enwedig am fân dramgwyddiadau o ofynion rheoleiddio.

Mae'r ddarpariaeth hon yn cymhwyso adran 63 i 69 o RESA i reoliadau a wnaethpwyd o dan yr adran hon fel y byddent yn gymwys i orchymyn a wneir o dan Ran 3 o RESA. Nodir effaith hyn yn y paragraffau canlynol.

Pan fo Gweinidogion Cymru yn rhoi pŵer i awdurdod lleol osod cosb sifil mewn perthynas â throstedd, rhaid i Weinidogion Cymru hefyd wneud darpariaeth i sicrhau'r canlyniadau canlynol (gweler adran 63 o RESA)—

- bod yr awdurdod yn cyhoeddi canllawiau ynghylch ei ddefnydd o'r gosb;
- bod canllawiau'n cynnwys gwybodaeth benodedig, yn dibynnu ar y math o gosb - megis yr amgylchiadau y mae cosb ariannol neu hysbysiad stop yn debygol o gael ei osod, yr amgylchiadau pan na ellir eu gosod; swm unrhyw gosb ariannol; sut i ollwng cosbau a hawliau apêl a thebyg;
- bod y canllawiau yn cael eu diwygio pan fo hynny'n briodol;
- bod yr awdurdod yn ymgynghori â phobl a bennir yn rheoliadau Gweinidogion Cymru cyn cyhoeddi unrhyw ganllawiau;
- bod yr awdurdod wedi rhoi sylw i'r canllawiau wrth arfer swyddogaethau.

Pan roddir pŵer ar awdurdod lleol i osod cosb sifil mewn perthynas â throstedd rhaid i'r awdurdod hefyd—

- baratoi a chyhoeddi canllawiau ynghylch sut y mae'r drosedd i'w gorfodi (gweler adran 64 RESA);
- cyhoeddi adroddiadau am yr achosion lle mae'r gosb sifil wedi'i gosod (gweler adran 65 RESA).

Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth sy'n galluogi awdurdod lleol i osod cosb sifil mewn perthynas â throedd oni bai bod Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni y bydd yr awdurdod yn gweithredu yn unol â'r egwyddorion a ganlyn (y cyfeirir atynt yn RESA fel "yr egwyddorion rheoleiddiol") wrth arfer y pŵer hwnnw—

- y dylid cynnal gweithgareddau rheoleiddio mewn ffordd sy'n dryloyw, yn atebol, yn gymesur ac yn gyson; a
- y dylid targedu gweithgareddau rheoleiddio dim ond mewn achosion lle mae angen gweithredu.

Os yw Gweinidogion Cymru wedi rhoi pŵer i osod sancsiynau sifil, rhaid iddynt edrych ar sut y caiff y pŵer hwnnw ei weithredu (gweler adran 67 o RESA) a chânt atal pŵer awdurdod lleol i osod sancsiynau o'r fath (gweler adran 68 o RESA).

Rhaid i dderbynebaw sancsiynau sifil — e.e. wedi talu cosbau ariannol — gael eu talu i Gronfa Gyfunol Cymru lle mae gan yr awdurdod lleol swyddogaethau mewn perthynas â Chymru yn unig (gweler adran 69 o RESA).

Mae'r ddarpariaeth hon hefyd yn cymhwyso adran 60(1) a (2) o RESA i reoliadau a wneir o dan yr adran hon fel y byddent yn gymwys i orchymyn a wneir o dan Ran 3 o RESA. Mae hyn yn golygu, cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon, fod rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori gyda'r

- (a) rheoleiddiwr y mae'r rheoliadau'n ymwneud ag ef,
- (b) y cyfryw sefydliadau yr ymddengys i Weinidogion Cymru eu bod yn cynrychioli personau yr effeithir arnynt yn sylweddol gan y cynigion, a
- (c) personau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.

Os, o ganlyniad i'r gofyniad ymgynghori uchod, yr ymddengys i Weinidogion Cymru ei bod yn briodol newid yn sylweddol y cyfan neu unrhyw ran o'r cynigion, rhaid i Weinidogion Cymru gynnal ymgynghoriad pellach o'r fath mewn perthynas â'r newidiadau ag y maent yn ystyried yn briodol.

Gan fod hwn yn bŵer cymharol eang mae'n briodol bod rheoliadau o'r fath yn cael eu gwneud yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft

Pwrpas a bwriad polisi

Prif nod y pŵer hwn yw darparu mecanwaith gorfodi amgen i Awdurdodau Lleol sy'n golygu bod pobl yn cydymffurfio â gofynion y Bil.

Tra'r ydym yn rhagweld y bydd Swyddogion Gorfodi yn ceisio cysylltu â busnesau cyn cymryd camau gorfodi ffurfiol ac y bydd y ddeddfwriaeth yn cyd-fynd â negeseuon codi ymwybyddiaeth, bydd sefydlu trefn Sanctsiynau Sifil yn caniatáu gweithredu pellach pan fydd achosion o dorri rheolau bwriadol neu arwyddocaol. Gall hyn gynnwys hysbysiadau cydymffurfio, hysbysiadau stop a chosbau ariannol amrywiol.

Pan fo diffyg cydymffurfio dro ar ôl tro gyda'r ddeddfwriaeth yna byddai gorfodaeth yn symud i ddefnyddio sanctsiynau troseddol. Bydd aelodau'r cyhoedd a manwerthwyr yn gallu herio penderfyniad a wnaed drwy apelio drwy system y llysoedd.

Nododd [adolygiad gan Lywodraeth Cymru o sanctsiynau sifil](#) ar gyfer troseddau amgylcheddol yn 2015 bod defnyddio sanctsiynau sifil yn atal diffyg cydymffurfiaeth, yn darparu ffordd effeithiol a theg o orfodi, yn lleihau'r peryglon o niwed amgylcheddol ac yn atal niwed rhag digwydd neu barhau i ddigwydd.

**Pwyllgor Newid Hinsawdd,
yr Amgylchedd a Seilwaith**

**Climate Change, Environment,
and Infrastructure Committee**

Elin Jones AS

Y Llywydd

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

SeneddHinsawdd@senedd.cymru

senedd.cymru/SeneddHinsawdd

0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

SeneddClimate@senedd.wales

senedd.wales/SeneddClimate

0300 200 6565

23 Medi 2022

Annwyl Lywydd,

Ar 17 Gorffennaf, fe wnaethoch ysgrifennu ataf ynglŷn â chais gan Lywodraeth Cymru i osgoi ystyriaeth Pwyllgor Cyfnod 1 o Fil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru). Mae'r Pwyllgor yn cydnabod nod Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r Bil i gefnogi ei hachos mewn perthynas â Deddf y Farchnad Fewnol yn y Goruchaf Lys. Dyna pam y mae am i'r Bil fynd drwy'r Senedd yn gyflym. Cafodd y nod hwn ei gefnogi gan dystion yn ein sesiwn graffu gychwynol ar y Bil. Fodd bynnag, mae nifer o faterion cysylltiedig y mae angen eu hystyried ymhellach.

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ei chais i'r Pwyllgor Busnes i'w hystyried yn ei gyfarfod olaf cyn toriad yr haf a chyn i'r Bil hyd yn oed gael ei gyflwyno. Ar adeg y cais, nid oedd neb y tu allan i Lywodraeth Cymru yn ymwybodol o ddarpariaethau manwl y Bil. Mae gan y Llywodraeth fwyafrif cynhenid ar y Pwyllgor Busnes drwy bleidleisiau wedi'u pwysoli a gall ymarfer y mwyafrif hwnnw o'i phlaidd os yw'n dymuno. Yn y cyd-destun hwn y gofynnais i'r Pwyllgor Busnes ohirio ei benderfyniad, fel y gallai'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith o leiaf wneud rhywfaint o waith ymgynghori a chraffu ar y cynigion. Wedi hynny, sicrhais ymrwymiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd i gyhoeddi Bil drafft.

Gallaf gadarnhau bod Llywodraeth Cymru ar 15 Awst wedi cyhoeddi Bil drafft a chrynodeb o ymatebion i ymgynghoriad cysylltiedig a gynhaliwyd rhwng 30 Gorffennaf a 22 Hydref 2020. Galluogodd hyn y Pwyllgor i wneud rhywfaint o waith yn ystod yr haf. Fodd bynnag, rhaid imi bwysleisio bod y trefniadau hyn yn llai na boddhaol, yn enwedig o'u cymharu â gwaith craffu pwyllgor Cyfnod 1:

- Oherwydd yr amseru, dim ond ymgynghoriad cyhoeddus byr o tua 3 wythnos oedd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn gallu ei gynnal ar y Bil, gan ddechrau ar 15 Awst.



•Penderfynodd y Llywodraeth na allai gytuno i fy nghais i gyhoeddi nodiadau esboniadol, memorandwm esboniadol, nac asesiad effaith ochr yn ochr â'r Bil drafft. Golygai hyn, er enghraifft, nad oedd gan randdeiliaid ddim gwybodaeth am asesiad Llywodraeth Cymru o effaith ariannol y cynigion.

•Daeth i'r amlwg nad oedd yr ymgynghoriad yn 2020 wedi ymdrin â'r union gynigion yn y Bil. Nid oedd dau o'r cynhyrchion arfaethedig a waherddir yn y Bil drafft yn destun ymgynghoriad yn ystod 2020 ac fe'u hychwanegwyd, yn ôl y Llywodraeth, mewn ymateb i'r ymgynghoriad. Nid wyf mewn sefyllfa i wybod a gafodd y wybodaeth hon ei rhannu â'r Pwyllgor Busnes ar unrhyw adeg.

Er gwaethaf y cyfyngiadau hyn, rwy'n falch o ddweud bod y Pwyllgor wedi cael 34 o ymatebion ysgrifenedig i'w ymgynghoriad. Mae hyn yn adlewyrchu awydd ymhlith rhanddeiliaid i gyfrannu at waith craffu ar y Bil ac yn atgyfnerthu pwysigrwydd gwaith craffu pwyllgor yng Nghyfnod 1.

Mae'r Pwyllgor bellach wedi cwblhau'r cyntaf o ddau gyfarfod i glywed tystiolaeth lafar ar y Bil drafft. O ran gwaith craffu, rydym yn fodlon ein bod wedi gwneud popeth posibl o ystyried yr amser sydd ar gael. Wrth ystyried yr amserlen ar gyfer y Bil, byddem yn ddiolchgar pe gallai'r Pwyllgor Busnes sicrhau bod digon o amser ar gael i'r Pwyllgor glywed gan y Gweinidog a pharatoi a chyhoeddi adroddiad.

Fel y dywedais yn fy llythyr dyddiedig 11 Gorffennaf, byddai penderfyniad gan y Pwyllgor Busnes i osgoi gwaith craffu pwyllgor yn amddifadu rhanddeiliaid a'r cyhoedd o'r unig gyfle iddynt gael eu hymgyngori ar y darpariaethau manwl yn y Bil. Roedd angen gwaith y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith, y tu allan i broses graffu ffurfiol y Bil, er mwyn osgoi diffyg craffu. Credaf ein bod wedi llwyddo yn ein nod. Fodd bynnag, ni ddylid ystyried bod y dull hwn mewn unrhyw ffordd yn cyfateb i, ac yn sicr nid yn disodli'n ddigonol waith craffu Pwyllgor Cyfnod 1 ffurfiol.

Yn olaf, yn sgil y digwyddiadau hyn, efallai ei bod yn amserol i'r Pwyllgor Busnes ystyried pa mor briodol ydyw bod pwyllgor sydd â mwyafrif o'r Llywodraeth yn penderfynu i ba raddau y creffir ar Filiau'r Llywodraeth.

Rwy'n ddiolchgar bod y Pwyllgor Busnes wedi ymgynghori â'r Pwyllgor ar y mater hwn.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.



Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

20 Medi 2022

Annwyl Llyr

Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru)

Ers y penderfyniad ynghylch Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru), mae materion technegol a chyfreithiol cymhleth wedi parhau i fod o dan ystyriaeth, ac o ganlyniad hoffem wneud newidiadau bach (ond nid ansylweddol) i'r Bil.

Nid ydym wedi gwneud y newidiadau hyn i'r Bil cyn ei gyflwyno er mwyn cadw mor agos â phosib at yr amserlen, yn dilyn y cyfnod o alaru cenedlaethol ar ôl marwolaeth Ei Mawrhydi, y Frenhines Elizabeth II. Mae'r Bil, fel y'i cyflwynwyd, yr un fath â'r Bil drafft a gyhoeddwyd gennym ar 15 Awst 2022 ac y mae eich Pwyllgor wedi gallu cynnal ymgynghoriad cychwynnol â rhanddeiliaid ar ei gynnwys.

Pwrpas y llythyr hwn, felly, yw eich hysbysu mor gynnar â phosibl o'n bwriad i gynnig y gwelliannau hyn yng Nghyfnod 2. Crynhoir y newidiadau arfaethedig isod:

1. Mae newid i adran 1 i egluro, at ddibenion y Bil, bod gludyddion, paent ac inc yn cael eu heithrio o'r diffiniad o' gair "plastig" (yn unol â'n bwriad).
2. Mae newid i adran 5 i sicrhau na fydd y drosedd o "gynnig cyflenwi" cynnyrch plastig untro gwaharddedig yn gallu cael ei dehongli fel un sy'n cynnwys gweithredoedd nad oeddem yn bwriadu eu cynnwys. Yn benodol, mae'r newidiadau hyn yn sicrhau mai dim ond ar safleoedd yng Nghymru y gellid cyflawni'r drosedd. Wrth wneud hyn rydym hefyd am achub ar y cyfle i'w gwneud yn gliriach y byddai person sydd y tu allan i Gymru yn cyflawni trosedd os ydyn nhw'n "cyflenwi" cynnyrch plastig untro gwaharddedig i ddefnyddiwr sydd yng Nghymru (er enghraifft trwy werthiant archeb ar-lein neu drwy'r post).

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 12
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

3. Mae newid i adran 20 (dehongli) i symud sylwedd y diffiniad o “bag siopa” fel ei fod wedi'i restru ymhlith y diffiniadau eraill o gynhyrchion gwaharddedig a nodir yn yr Atodlen.
4. Mae newid i'r esemptiad cyntaf mewn perthynas â “gwellt” (a restrir yn y Tabl yn yr Atodlen) i ymdrin â mater technegol sy'n codi o'r ffordd y drafftiwyd yr esemptiad. Mae'r esemptiad yn cael ei gymhlethu gan y ffaith bod rhaid iddo gyfeirio at y busnes fferyllol sydd yn gwerthu'r gwelltyn o dan y gyfraith, ac at yr unigolyn sydd yn cyflawni'r trafodiad ar ran y busnes.

Er budd tryloywder, ac er hwylustod i chi, rydym yn atodi fersiwn ddrafft o'r Bil a gynhyrchir er mwyn dangos y gwelliannau y byddwn yn eu cynnig o fewn eu cyd-destun (mewn geiriau eraill, fel newidiadau wedi'u tracio o'r drafft sydd wedi'i gyflwyno). Byddwn, wrth gwrs, yn cynhyrchu'r diwygiadau arfaethedig hyn yn y ffordd arferol, gyda tabl yn dangos eu pwrpas a'u heffaith, i'r Senedd eu hystyried yn ffurfiol ar yr adeg briodol.

Yn gywir



Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Datganiad Ysgrifenedig – Drafft o Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru)
DYDDIAD	15 Awst 2022
GAN	Julie James, y Gweinidog Newid Hinsawdd

Mae'n bleser gen i gyhoeddi fy mod heddiw yn cyhoeddi drafft o Fil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru). Mae nifer o bobl yng Nghymru yn cymryd camau yn barod i leihau ein dibyniaeth ar ddefnyddio plastigau untro, newid arferion a gwneud cynnyrch a gwasanaethau'n fwy cynaliadwy. Fel Llywodraeth, rydym wedi ymrwymo i gefnogi eu hymdrechion. Y Bil fydd y cam cyntaf mewn rhaglen o fesurau sydd â'r nod o fynd i'r afael â llygredd plastig a chyflawni ymrwymiad Rhaglen y Llywodraeth i ddiddymu cynhyrchion plastig untro sy'n cael eu taflu'n rheolaidd. Mae Aelodau ar draws y Senedd wedi bod yn galw ar frys i ffrwyno'r defnydd o blastigau untro nad ydynt yn hanfodol nac yn feddygol, ac rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda phob plaid i sicrhau bod gweithredu ar blastigau mor uchelgeisiol â bo modd, gan adeiladu ar ein pryderon cyffredin a rhai'r cymunedau rydym yn eu cynrychioli.

Mae'r Bil yn cynnig gwahardd neu gyfyngu ar werthiant rhai o'r plastigau untro a deflir fwyaf cyffredin yng Nghymru. Mae'r Bil drafft i'w weld drwy glicio ar y ddolen ganlynol: <https://gov.wales/environmental-protection-single-use-plastic-products-wales-bill>. Nod cyhoeddi y Bil drafft heddiw yw rhoi cyfle i Aelodau'r Senedd a rhanddeiliaid sydd â diddordeb weld cwmipas a chyfeiriad arfaethedig y Bil cyn ei gyflwyno'n ffurfiol yn yr hydref. Nid yw'n cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori pellach ar hyn o bryd. Mae'r gwaith ar baratoi'r Bil yn parhau ac mae'n debyg y bydd newidiadau cyn ei gyflwyno i'r Senedd. Nid fersiwn derfynol yw hon felly.

Rwy'n edrych ymlaen at weithio gydag Aelodau Senedd Cymru ar ddarpariaethau'r Bil wrth graffu arno ar ôl i'r Bil gael ei gyflwyno yn yr hydref.

Caiff y datganiad ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau. Os bydd aelodau eisiau i mi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ynglŷn â hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny.

Julie James MS
Minister for Climate Change

15 July 2022

Dear Julie,

Further to our meeting earlier this week to discuss your proposed timetable for the Single Use Plastics Bill, I thought it would be useful to set out the latest position as I understand it.

You will be aware that the Business Committee agreed to postpone a decision on whether or not to refer the Bill until after it has been introduced. The Business Committee agreed that it would return to further consideration of the Bill timetable at the beginning of the autumn term, in light of whether the Bill was published in draft over the summer and whether or not the Climate Change, Environment and Infrastructure Committee has subsequently been able to undertake any consultation work.

During our meeting, you agreed you would explore whether the Bill could be published in draft during the summer recess. I would be grateful if you could publish the draft Bill as early as possible in the summer recess, to enable the Committee to undertake a short public consultation on the draft.

I would also be grateful if you would publish drafts of any supporting documentation, such as an Explanatory Memorandum or Regulatory Impact Assessment, as this would greatly assist the Committee and stakeholders in being able to come to a view on the Bill. It would also be useful if you could publish a summary of the consultation that was undertaken between April and October 2020.

In order to be able to undertake this work in any meaningful way, I believe it is necessary for these documents to be made available in early August.

Finally, I would like to take this opportunity to thank you for your offer to appear before the Committee to be scrutinised in relation to the Bill. Subject to any further decision by the Business Committee, we intend to hold an oral evidence session on the Bill on 22 September and would be grateful if you would confirm your availability for the afternoon.

Yours sincerely,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Llyr', is centered on a light yellow rectangular background.

Llyr Gruffydd MS,
Chair, Climate Change, Environment and Infrastructure Committee

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a
Seilwaith

13 Gorffennaf 2022

Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru)


Annwyl Llyr,

Yn ei gyfarfod yr wythnos hon, bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried papur gan y Llywodraeth ar Fil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) ochr yn ochr â'ch gohebiaeth chi, dyddiedig 11 Gorffennaf.

Fel y nodwyd yn eich llythyr, mae'r Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i benderfyniad gael ei wneud ynghylch a ddylai Bil gael ei gyfeirio at bwyllgor cyfrifol i ystyried ei egwyddorion cyffredinol ar ôl iddo gael ei gyflwyno. Nodasom hefyd eich trafodaethau diweddar gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd, gan gynnwys ei hymrwymiad i ddarganfod a ellid cyhoeddi'r Bil ar ffurf drafft yn ystod toriad yr haf.

O ganlyniad, cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'n dychwelyd i ystyried amserlen y Bil ymhellach ar ddechrau tymor yr hydref, gan gynnwys yng ngoleuni a gafodd y Bil ei gyhoeddi ar ffurf drafft dros yr haf ac a yw eich Pwyllgor, wedyn, wedi gallu gwneud unrhyw waith ymgynghori dros yr haf.

Cofion gorau,



Y Gwir Anrh. Elin Jones AS
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.



We welcome correspondence in Welsh or English.



Elin Jones AS
Llywydd

11 Gorffennaf 2022

Annwyl Lywydd

Ysgrifennaf atoch yn eich rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Busnes.

Ddydd Mawrth, darparodd y Prif Weinidog ei ddatganiad ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn seneddol nesaf. Cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai Bil Plastigau Untro yn cael ei gyflwyno'n fuan. Mae Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith wedi dangos diddordeb yn y pwnc hwn ers tro a byddwn yn disgwyl i'r Bil gael ei gyfeirio at y Pwyllgor maes o law. Wrth gyfeirio at y Bil, dywedodd y Prif Weinidog:

"Bydd y Bil hefyd yn cefnogi ein her gyfreithiol barhaus i Ddeddf Marchnad Fewnol y DU. Yn yr ymglyfreitha presennol, a gyflwynwyd gan y Cwnsler Cyffredinol, mae'r Llys wedi nodi y byddai'n ddefnyddiol ystyried enghraifft ymarferol, ar ffurf darn o ddeddfwriaeth yn y Senedd, y gellir ei defnyddio i roi prawf ar y materion dan sylw. Bydd y Bil hwn yn darparu'r enghraifft ymarferol honno, ac yn y cyd-destun hwnnw byddwn yn ceisio cytundeb y Pwyllgor Busnes i gyflymu gwaith craffu'r Senedd."

Hoffwn rannu rhai safbwyntiau cychwynnol ar y mater hwn gyda'r Pwyllgor Busnes.

Yn gyntaf, byddai'n anodd iawn i'r Pwyllgor Busnes benderfynu peidio â chyfeirio Bil i graffu arno heb weld y Bil dan sylw yn gyntaf. Mae Rheol Sefydlog 26.9 yn cydnabod hyn ac yn dweud:

"Pan fydd Bil wedi'i gyflwyno, rhaid i'r Pwyllgor Busnes benderfynu a ddylid cyfeirio'r ystyriaeth ar yr egwyddorion cyffredinol at bwyllgor cyfrifol"

Dim ond ar ôl i Fil gael ei gyflwyno y gall y Pwyllgor Busnes wneud penderfyniad o'r fath.

Yn ail, byddai'n ddefnyddiol pe gallai penderfyniad y Pwyllgor Busnes gael ei lywio drwy ymgynghori â'r pwyllgor cyfrifol dan sylw. Rwy'n awgrymu bod y Pwyllgor Busnes yn defnyddio'r amser rhwng cyflwyno'r Bil a'r pwynt pan fydd yn gwneud ei benderfyniad i ymgynghori â'r Pwyllgor cyfrifol.

Yn olaf, dylid nodi nad oes neb y tu allan i Lywodraeth Cymru yn ymwybodol o ddarpariaethau manwl y Bil ar hyn o bryd. Cynhaliwyd ymgynghoriad tua 20 mis yn ôl (rhwng 30 Gorffennaf a 22 Hydref 2020) ar gynigion i

wahardd rhai plastigau untro ond nid yw'r ymatebion wedi'u cyhoeddi. Fel y mae ar hyn o bryd, proses graffu Cyfnod 1 fyddai'r unig gyfle i ymgynghori â rhanddeiliaid a'r cyhoedd ar y darpariaethau manwl yn y Bil.

Cefais wahoddiad i gwrdd â'r Gweinidog Newid Hinsawdd yn gynharach heddiw i drafod yr amserlen arfaethedig ar gyfer y Bil. Yn ystod y cyfarfod, ymrwymodd y Gweinidog i ystyried a ellid cyhoeddi'r Bil ar ffurf drafft yn ystod toriad yr haf. Os yw hynny'n bosibl, byddai'n galluogi Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith (yn amodol ar gytundeb yr Aelodau) i gynnal ymgynghoriad cyfyngedig dros yr haf i'w ddilyn, o bosibl, gyda sesiynau tystiolaeth lafar yn gynnar yn yr hydref. O ystyried y byddai rhywfaint o waith craffu eisoes yn mynd rhagddo, efallai y byddai'r Pwyllgor Busnes yn teimlo y byddai'n briodol cytuno ar amserlen fyrrach ar ôl i'r Bil gael ei gyflwyno, ac, wrth gwrs, ar ôl ymgynghori â Phwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Rwy'n gobeithio bod hyn yn ddefnyddiol ac yn darparu ateb sy'n arwain at rywfaint o ymgynghori cyhoeddus a chraffu gan y pwyllgor ar y Bil.

Yn gywir



Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

SL(6)257 – Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Diwygio Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) (Diwygio) 2022

Cefndir a diben

Mae Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Diwygio Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2022 (“y Rheoliadau”) yn ymestyn y cyfnod pontio ar gyfer newidiadau penodol i labeli bwyd o ganlyniad i ymadael â'r UE. Yr effaith yw y bydd rhai termau labeli yr UE a chyfeiriadau yr UE yn cael eu caniatáu ar y farchnad yng Nghymru am 15 mis ychwanegol.

Mae'r Rheoliadau'n diwygio deddfwriaeth ddomestig Cymru a chyfraith yr UE a ddargedwir fel y mae'n gymwys yng Nghymru. Daw'r cyfnod pontio presennol ar gyfer y newidiadau hyni labeli bwyd i ben ar 30 Medi 2022. Mae'r Rheoliadau'n ymestyn diwedd y cyfnod pontio hyd at 31 Rhagfyr 2023 (ac yn cynnwys y dyddiad hwn).

O ganlyniad, bydd y gofyniad a gorfodaeth newidiadau labelu penodol sy'n ymwneud ag ymadael â'r UE yn gymwys o 1 Ionawr 2024.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r canlynol:

- Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006;
- Rheoliadau Deunyddiau Bwyd sydd wedi'u Rhewi'n Gyflym (Cymru) 2007;
- Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009;
- Rheoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) 2011;
- Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013;
- Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014;
- Rheoliadau Mêl (Cymru) 2015;
- Rheoliadau Gwlad Tarddiad Cigoedd Penodol (Cymru) 2015;
- Rheoliadau Caseinau a Chaseinadau (Cymru) 2016;
- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1825/2000 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EC) Rhif 1760/2000 Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â labelu cig eidion a chynhyrchion cig eidion;
- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 mewn perthynas â safonau marchnata ar gyfer wyau;
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 543/2011 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 mewn perthynas â'r sectorau ffrwythau a llysiau a ffrwythau a llysiau wedi'u prosesu;
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 29/2012 ar safonau marchnata ar gyfer olew olewydd, a
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/33 sy'n ategu Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran ceisiadau i ddiogelu dynodiadau tarddiad,



dynodiadau daearyddol a thermâu traddodiadol yn y sector gwin, y weithdrefn wrthwynebu, cyfyngiadau defnydd, diwygiadau i fanylebau cynnyrch, canslo amddiffyniad, a labelu a chyflwyniad.

Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y 3 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.

Mae rheoliad 2 yn nodi ei fod yn diwygio paragraff (9)(b)(ii) yn rheoliad 17 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, ond nid yw is-baragraff (b) yn cynnwys paragraff (ii).

2. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.

Mae rheoliad 3, sy'n diwygio rheoliad 12 o Reoliadau Deunyddiau Bwyd sydd wedi'u Rhewi'n Gyflym (Cymru) 2007, yn cyfeirio at 'is-baragraff (a)', ond dylai ddarllen 'paragraff (a)' gan nad oes unrhyw adrannau blaenorol yn y rheoliad. .

3. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.

Yn rheoliad 5, sy'n diwygio Rheoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) 2011, mae paragraff (2) yn cyfeirio'n anghywir at deitl rheoliad 4 fel '(tramgwyddau o dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd)'. Y teitl cywir i'r rheoliad hwnnw yw '(tramgwyddau o dan ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir)'.

Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r pwyntiau adrodd technegol.



Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 26 Medi 2022 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Tudalen y pecyn 23

Legislation, Justice and Constitution Committee

Ymateb y Llywodraeth i Reoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Diwygio Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2022

Pwyntiau Craffu Technegol 1, 2 a 3: Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y gwallau teipograffyddol a godir gan y Pwyllgor yn yr adroddiad. Er ein bod o'r farn bod bwriadau deddfwriaethol y darpariaethau yn glir, ceisiwn gywiro'r gwallau drwy gyfrwng slip cywiro ar y cyfle cyntaf.

SL(6)258 – Rheoliadau Symud Anifeiliaid Anwes yn Anfasnachol (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2022

Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth yr UE a ddargedwir er mwyn caniatáu i brawf titr gwrthgorff y gynddaredd arall gael ei ddefnyddio ar anifeiliaid anwes sy'n dod i Gymru o'r tu allan i'r DU.

Roedd Rheoliadau Symud Anifeiliaid Anwes yn Anfasnachol (Diwygio) (Cymru) 2022 (y "Rheoliadau Cyntaf") yn caniatáu defnyddio prawf titr gwrthgorff y gynddaredd arall ar anifeiliaid anwes sy'n dod i Gymru o drydedd wlad tan 1 Hydref 2022. Mae'r Rheoliadau hyn yn awdurdodi'r prawf hwnnw am gyfnod pellach o chwe mis gan ddechrau ar 1 Hydref 2022.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn dirymu'r Rheoliadau Cyntaf o 1 Hydref 2022 ymlaen.

Sail resymegol Llywodraeth Cymru o ran y polisi, fel yr esbonir yn y Memorandwm Esboniadol, yw, "*Bydd caniatáu defnyddio prawf ychwanegol yn cyflymu'n sylweddol y broses o brofi am y gynddaredd mewn anifeiliaid anwes sy'n dod i mewn i Gymru, ar adeg pan fydd y system yn ymdrin ag ôl-groniad sylweddol oherwydd bod pobl sy'n dianc o Wcráin yn dod â'u hanifeiliaid anwes i mewn. Bydd hyn yn lleihau'r baich cyffredinol ar leoedd cwarantín ac yn galluogi pobl i gael eu hanifeiliaid anwes yn ôl ynghynt, wrth hefyd gynnal bioddiogelwch Prydain Fawr, gan ddiogelu rhag risgiau sy'n gysylltiedig ag iechyd anifeiliaid a'r cyhoedd.*"

Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodir y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.



Ni pharatowyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r canlynol:

"Roedd swyddogion o'r farn bod hon yn sefyllfa eithriadol a bod angen gweithredu fel mater o frys. Mae angen i'r diwygiadau fod ar waith cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau cysondeb ledled y DU, ac maent am gyfnod dros dro. Mae DEFRA wedi gwneud rheoliadau cyfatebol ar gyfer Lloegr, a ddaw i rym ar 1 Hydref 2022, ac mae Llywodraeth yr Alban hefyd yn gwneud rheoliadau cyfatebol, felly bydd y rheoliadau hyn yn sicrhau cysondeb ledled Prydain Fawr."

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

